

Adroddiad ar yr Ymgynghoriad
Canllawiau Cynllunio Atodol (gweler y Tabl isod)
i Gynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Mabwysiadwyd Medi 2010

Roedd Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi cymeradwyo'r Canllawiau Cynllunio Atodol drafft canlynol, er mwyn ymgynghori â'r cyhoedd arnynt, ar 26 Mehefin 2013.

Asesu Hygyrchedd

Fe ddechreuodd yr ymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2012 a daeth i ben ar 19 Hydref 2012 am 5yp.

Anfonwyd tua 800 o lythyron at ymgynghoreion ar gronfa ddata'r Cynllun Datblygu Lleol, ac ymgynghoriad ar e-bost at y rheiny a oedd wedi nodi mai dyna oedd well ganddynt. Dywedwyd wrth yr ymgynghoreion y gellid cael copi o ddogfennau'r ymgynghoriad ar Gryno Ddisg, yn rhad ac am ddim, a bod y dogfennau ar gael i'w lawrlwytho oddi ar wefan yr Awdurdod. Roedd copïau papur o'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar gael ar cais, am y ffi lleiaf posib.

Anfonwyd llythyron, a Chryno Ddisgiau ag arnynt ddogfennau'r ymgynghoriad, at lyfrgelloedd yn Sir Benfro ac yn Sanclêr ac Aberteifi, fel a ganlyn:

Aberteifi	Penfro	Tyddewi	Trefdraeth
Crymych	Hwlfordd	Saundersfoot	Neyland
Abergwaun	Aberdaugleddau	Dinbych-y-pysgod	
Arberth	Doc Penfro	Sanclêr	

Anfonwyd y rhain hefyd at ganolfannau Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn Nhrefdraeth, Tyddewi a Dinbych-y-pysgod. Roedd copïau papur o'r dogfennau ar gael i'w darllen yn Swyddfeydd y Parc Cenedlaethol ym Mharc Llanion, Doc Penfro.

Rhoddwyd Cryno Ddisgiau ag arnynt y dogfennau i Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned yn y Parc Cenedlaethol. Rhoddwyd cyfle i'r Cynghorau ofyn am gopi papur rhad ac am ddim o'r canllawiau hefyd. Darparwyd amlen radbost er mwyn eu hannog i wneud hyn. Yna, darparwyd unrhyw ddogfennau ar gyfer y Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned heb unrhyw gost i'r Cynghorau hynny.

Hysbysebwyd yr ymgynghoriad ar wefan yr Awdurdod a thrwy hysbysiad cyhoeddus yn y Western Telegraph ar 25 Gorffennaf 2012.

Roedd modd cyflwyno ymatebion ysgrifenedig i'r Awdurdod erbyn 5yp ar 19 Hydref 2012.

Cydnabuwyd pob ymateb, ac maen nhw ar gael i'r cyhoedd eu gweld - gweler y ddolen isod at y wefan. Roedd cyfanswm o 6 person/sefydliad wedi ymateb a mynegon nhw 23 sylwad unigol a oedd yn dangos cefnogaeth.

Cafwyd adroddiad gerbron Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar ymatebion y swyddogion i'r ymgynghoriad ar y Canllawiau Cynllunio Atodol, yn ei gyfarfod ar 26 Mehefin 2013. Gellir darllen yr adroddiad ar ymatebion y swyddogion i'r ymgynghoriad ar y canllawiau cynllunio atodol trwy ddilyn y ddolen isod at y wefan:

http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/Files/files/Committee/NPA/13_06_26_Ordinary/33_13%20SPG%20LID%20and%20Accessibility%20RoC.pdf

Cytunodd yr Awdurdod i wneud newidiadau i'r canllawiau yn unol ag argymhellion y swyddog a nodwyd yn yr adroddiad, cyn belled â bod datganiad yn cael ei gynnwys i nodi bod y maen prawf ynglŷn â hygyrchedd yn ystyriaeth berthnasol i'w bwysu a'i fesur ynghyd ag ystyriaethau perthnasol eraill."

Uwchlwythwyd y Canllawiau i'r wefan yn
<http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/default.asp?pid=183>